


Digimap for Schools

Cyflwyno'r system gwybodaeth ddaearyddol – Cwtogi ar gost gordewdra?

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth
Cyfnod Allweddol 3



This is one of a series of teaching resources for use with Digimap for Schools. For more details about this service, visit <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daearyddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w rhoi'n uniongyrchol i ddisgyblion.

Teitl: **Cyflwyno'r system gwybodaeth ddaearyddol – cwtogi ar gost gordewdra**

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
CA3	lechyd	
TGAU	lechyd	

Cyflwyniad

Mae'r system gwybodaeth ddaearyddol yn system gyfrifiadurol wedi'i dylunio i ddal, storio, trafod, dadansoddi, rheoli a chyflwyno pob math o ddata gofodol neu ddaearyddol. I roi rhyw fath o raddfa i'r defnydd o'r system gwybodaeth ddaearyddol ym Mhrydain Fawr, mae data map yr Arolwg Ordnans yn darparu'r cefndir ar gyfer nifer o lwyfannau'r system gwybodaeth ddaearyddol, ac mae'r asiantaeth wedi cofnodi cyfanswm o 460 miliwn o nodweddion daearyddol unigol, gan gynnwys 35 miliwn o adeiladau. Mae'r rhain yn niferoedd mawr, a gallwch werthfawrogi pwysigrwydd y system gwybodaeth ddaearyddol a data'r Arolwg Ordnans, sy'n ei thanategu.

Peidiwch â phoeni, mae'r system gwybodaeth ddaearyddol yn ddefnyddadwy o ran ei gwmpas, er mwyn i chi allu ei defnyddio gyda symiau llai o ddata, sy'n beth da gan y sonnir amdani yn y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Cyflawnwyd y defnydd o fapiau a data i ddatrys problemau a gofnodwyd am y tro cyntaf gan John Snow ym 1854. Yn dilyn achosion o golera, plotiodd Snow ar fap leoliad y rheiny a oedd wedi dal y clefyd. Roedd eisoes o'r farn bod hwn yn glefyd a oedd yn cael ei gludo trwy ddŵr, a bu modd iddo amlygu, yn sgil clystyru achosion, y gellid ei olrhain i bwmp dŵr cyhoeddus. Map, ysgrifbin ac ymennydd dadansoddol oedd yr unig offer a ddefnyddiwyd i wneud hyn. Heddiw, mae gennym gyfrifiaduron a all ddod â nifer o daenlenni a chronfeydd data o wybodaeth gysylltiedig at ei gilydd i ddadansoddi nifer o faterion cymhleth a darparu atebion perthnasol ac atebion â ffocws er mwyn datrys problemau. Mae prinder pobl yn y gweithlu sydd â'r sgiliau i allu gwneud hynny, a dyma ble daw daearyddiaeth i'r amlwg.

Nid yw *Digimap for Schools* yn system gwybodaeth ddaearyddol. Fodd bynnag, mae'n darparu data map lle gellir cofnodi lleoliadau unrhyw ddata rydych yn dymuno ei bortreadu neu ei ddadansoddi. Gan ddefnyddio'r offer niferus yn *Digimap for Schools*, gallwch ddechrau meddwl yn nhelerau egwyddorion y system gwybodaeth ddaearyddol a chyflawni tasgau ystyrlon ar ddata bob dydd, sy'n caniatáu i chi archwilio patrymau ac ystyried atebion i broblemau.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Yn yr adnodd hwn, rydym wedi datblygu astudiaeth achos o gymhwysiad y system gwybodaeth ddaearyddol, gan ddefnyddio data'r Arolwg Ordnans. Gan ddefnyddio hwn fel man cychwyn, rydym wedi creu prosiect system gwybodaeth ddaearyddol syml, sy'n rhoi cyfle i ddefnyddio gwaith maes a *Digimap for Schools*.

Trwy gyflawni'r ymarfer hwn, gall y myfyrwyr gynhyrchu data gwerthfawr, a all gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth i bartïon eraill, fel eich awdurdod lleol.

Enghraifft byd go iawn

Cwtogi ar gost gordewdra:

Mae gordewdra yn broblem enfawr yn Birmingham ac mae'n costio £330 miliwn y flwyddyn i GIG y ddinas. Mae bron chwarter plant blwyddyn 6 y ddinas yn ordew yn swyddogol, ac mae ystadegau'n cysylltu'n uniongyrchol agosrwydd siopau prydau parod at safle ysgol â lefelau gordewdra. Rhoddodd data'r Arolwg Ordnans, a ddefnyddiwyd mewn system gwybodaeth ddaearyddol, ddata i dîm Iechyd Cyhoeddus Birmingham i fynd i'r afael â'r broblem yn uniongyrchol.

Y cam cyntaf oedd amlygu'r ysgolion, y cyfleusterau ieuenctid a'r canolfannau hamdden ar y map rhyngweithiol. Yr ail her oedd amlygu siopau prydau parod e.e. siopau pysgod a sglodion, pítsa, cebab neu fwytai a siopau prydau parod Tsieineaidd, o fewn 400 metr i ysgolion cynradd ac uwchradd, a chofnodi'r wybodaeth hon ar y map rhyngweithiol. Fe wnaethant ddarganfod bod gan 71% o'r ysgolion siop prydau parod o fewn 400 metr! Ar ôl crynhoi'r wybodaeth hon, datblygwyd y prosiect trwy rannu'r canlyniadau ac annog gweithredu ar y cyd i weithio tuag at iechyd gwell ar draws pob parti â buddiant, gan gynnwys perchenogion y siopau. Cymerwyd camau hefyd i reoleiddio'n fwy llym ceisiadau yn y dyfodol i agor siopau newydd, er mwyn sicrhau na all mwy na 10% o unedau mewn unrhyw ardal siopa fod yn siopau prydau parod.

Prif weithgaredd

Mae un prif weithgaredd i fyfyrwyr ei gwblhau, sy'n seiliedig ar yr enghraifft byd go iawn a ddangosir uchod.

Cwtogi ar ordewdra

Ar gyfer yr her hon, bydd angen casglu gwybodaeth am yr holl siopau prydau parod yn eich ardal a ddewisoch. Oni bai bod modd cyflawni'r gweithgaredd hwn fel tasg ymchwil yn yr ystafell ddosbarth, gan ddefnyddio'r rhyngwyd neu gyfeiriaduron busnes lleol wedi'u hargraffu, bydd angen gwneud gwaith maes i amlygu pob lleoliad, a'u nodi ar allbrint papur o *Digimap for Schools*.

Bydd y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i *Digimap for Schools* ar-lein a'i chadw, a dylech ychwanegu enwau'r myfyrwyr cyn ei chyflwyno.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Dolenni ar y we

Mae mwy o astudiaethau achos yr Arolwg Ordnans ar gael ar:

<http://www.ordnancesurvey.co.uk/business-and-government/case-studies/index.html>

Gallwch gyrchu lluniau o bob sgwâr grid yr Arolwg Ordnans, a all helpu i amlygu busnesau, yn rhad ac am ddim ar wefan Geograph ar: www.geograph.org.uk

Gallwch chwarae gêm ONS yma i weld pa mor dda rydych chi'n adnabod eich ardal leol:

<http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk/HTMLDocs/dvc147/index.html>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013




Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Teitl – Cwtogi ar ordewdra

Yn y gweithgaredd hwn, bydd angen dewis ysgol, clwb ieuencid neu gyfleuster hamdden i ganolbwyntio arno. Dangosir enghraifft o weithgaredd yma a gallwch ei gweld yn fanylach yn y PowerPoint cysylltiedig.




Ar ôl canoli'r map dros eich lleoliad, bydd angen creu allbrint ar gyfer ymchwil yn yr ystafell ddsbarth neu (yn ddelfrydol) ymchwil maes, i ymchwilio i siopau prydau parod yng nghyffiniau eich lleoliad. Byddai'n ddelfrydol defnyddio un o'r lefelau closio ar frig y bar closio wrth y marc + (a ddangosir uchod) ar gyfer eich map. Gweithiwch allan pa lefel closio sy'n dangos yr ardal orau ar gyfer eich lleoliad.

Yn ystod eich cyfnod ymchwilio, cofnodwch enw pob siop prydau parod y byddwch yn eu hamlygu. Rhowch leoliad pob un ar y map yn gywir a thynnwch lun digidol o'r busnes, os na allwch ddod o hyd i un o unrhyw le arall.

Agorwch *Digimap for Schools* yn eich lleoliad. Yn yr enghraifft uchod, roedd yr ardal o ddiddordeb 400 metr o gwmpas yr ardal dan sylw. Dewiswch ardal o ddiddordeb addas a rhowch gylch o gwmpas eich safle, gan ddefnyddio'r offeryn byffer.

Defnyddiwch y cyfleuster pwyntio a dewiswch radiws addas e.e. 200 metr neu 0.2 km, neu fwy.




Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

A yw'r siopau prydau parod o fewn eich cylch byffer? Os nad ydynt, bydd angen ei newid, fel y bo'r angen.



Ychwanegwch eich lluniau gan ddefnyddio'r opsiwn i ychwanegu llun. Newidiwch leoliad y pin gan

ddefnyddio'r botwm symud nodwedd, os oes angen, hyd nes ei fod yn y lleoliad cywir. 

Ychwanegwch enwau'r siopau prydau parod mewn manau addas, gan ystyried gosodiad terfynol y

map. Defnyddiwch y label lle i wneud hyn  gan wneud yn siŵr bod maint y testun yn briodol.


Tynnwch lun saeth rhwng y testun a lleoliad y siop prydau parod ar y map, i gysylltu'r label a'r lleoliad

daeryddol. Defnyddiwch yr offeryn i dynnu llun llinell i greu'r saeth. 

Cadwch y map a'i argraffu, os oes angen.


Estyniad

Fel estyniad i'r ymarfer hwn, dylech greu taenlen o wybodaeth berthnasol, fel yr enghraifft a ddangosir isod ac yn y PowerPoint cysylltiedig.



Takeaway outlet	NG coordinate	Post Code if known	Street name	Walking distance from School gate	isolated example Yes/No	Type of food
Burger King	SU43009 15622	SO16 3AU	Burgess Road	341 Metres	No	Burger and shakes
Ocean Fish Bar	SU42915 15612	SO16 3AU	Burgess Road	259 M	No	Fish and chips
Kimchi & Kinbab	SU42884 15610	SO16 3AU	Burgess Road	221 M	No	Korean takeaway
Chans China	SU42796 15597	SO16 3AU	Burgess Road	149 M	No	Chinese
Diego	SU42821 15600	SO16 3AU	Burgess Road	166 M	No	Caffe and Patisserie
Domino Pizza	SU42851 15606	SO16 3AU	Burgess Road	194 M	No	Pizza
Pizzazz Pizza	SU42833 15601	SO16 3AU	Burgess Road	180 M	No	Pizza
Chef China	SU42826 15602	SO16 3AU	Burgess Road	165 M	No	Chinese
Uni Kebab	SU42783 15597	SO16 3AU	Burgess Road	153 M	No	Kebabs, Burgers & Pizzas
Star Fried Chicken	SU42767 15592	SO16 3AU	Burgess Road	178 M	No	Kebabs, Burgers & Pizzas
E-Sunway	SU42760 15594	SO16 3AU	Burgess Road	180 M	No	BBQ
Chef Hong Kong	SU42750 15593	SO16 3AU	Burgess Road	192 M	No	Chinese


Casglwyd gwybodaeth cyfeirnod grid ar gyfer pob siop prydau parod, gan ddefnyddio'r offeryn

cyfeirnod grid. 

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Mae'r pellter o gât yr ysgol i bob siop prydau parod wedi cael ei gofnodi hefyd. Cyfrifir hyn gan

ddefnyddio'r swyddogaeth mesur pellter yn yr offeryn mesur 



Gallwch farcio ar y map fannau croesi i gerddwyr ar y prif ffyrdd, a'u cofnodi ar y daenlen gyda sylwadau addas.

Yn yr astudiaeth achos yn Birmingham, roeddent yn anelu am 10% o'r siopau yn eu hardal yn siopau prydau parod. Yn yr enghraifft, roedd dros 30% o'r siopau yn siopau prydau parod, a oedd, yn rhannol, o ganlyniad i agoswydd y brifysgol leol.

Amlygwch resymau demograffig priodol pam y gallai fod cyfran isel neu uchel o siopau prydau parod, gan ddibynnu ar ganlyniadau eich dadansoddiad.

Gallwch gael gwybodaeth ddemograffig o wefan ONS.